
Technoleg Dylunio
Pawb

# Mymryn o Naddu

- Gwaith Tŵls



## Trosolwg

Mae defnyddio tŵls yn sgil bywyd bwysig y mae posib ei chyflwyno gan ddefnyddio plicwyr i naddu. Bydd y gweithgaredd yma'n datblygu cydsymudiad llaw a llygad, sgiliau motor manwl a bras a'r gallu i reoli risg.

## Adnoddau

- Plicwyr
- Brigau sy'n ddigon hir i'w dal yn ddiogel wrth naddu (pren gwyrdd meddal yn ddelfrydol e.e. helyg heb unrhyw gnotiau)
- Deunyddiau crefft i ychwanegu at y dyluniad e.e. pinnau ysgrifennu lliw ac ati

## Gweithgaredd

Mae'n bwysig sicrhau bod rheolau diogelwch yn cael eu dilyn i gadw'r gweithgaredd yma'n ddiogel ac yn hwyliog. Edrychwch ar ein hasesiad risg budd ni ar gyfer gwaith tŵls am fanylion pellach.

1. Dangoswch y defnydd cywir i ddysgwyr newydd gan gynnwys y dechneg ganlynol:
    - Storiwch y plicwyr yn ddiogel mewn lle penodol
    - Codwch y pliciwr wrth ei handlen yn unig
    - Gwnewch yn si□r eich bod yn eistedd neu'n penlinio mewn safle sefydlog
    - Cofiwch gael 'swigen' hyd braich o leiaf rhwng y cyfranogwyr
    - Daliwch ben uchaf y brigyn rydych chi'n ei naddu a'i gadw draw oddi wrth eich corff
    - Pwyntiwch y brigyn ar i lawr
    - Gwthiwch y pliciwr oddi wrthych chi bob amser
    - Edrychwch ar yr hyn rydych chi'n ei naddu – stopiwch os oes angen i chi siarad â rhywun
2. Rhowch gyfle i bawb ymarfer y dechneg naddu.
3. Dewiswch brosiect gwaith coed syml i'w gwblhau a defnyddiwch ddeunyddiau ychwanegol i ychwanegu at y dyluniad e.e. cymeriad anifail, addurn tymhorol, peg label gardd ac ati (edrychwch ar y tabl isod am syniadau pellach ar gyfer prosiectau).

## Canlyniadau a Awgrymir ar gyfer Dysgu a Chwarae

Rydyn ni'n deall y byddwch chi, fel addysgwr, yn teilwra'r gweithgaredd yma i anghenion dysgu eich myfyrwyr. Dyma rai o'r canlyniadau dysgu y mae ymarferyddion eraill wedi defnyddio'r gweithgaredd yma ar gyfer eu cyrraedd.

- Dysgu ac ymarfer sgil newydd yn ddiogel

Isod, rydyn ni wedi defnyddio syniadau y mae addysgwyr eraill wedi'u defnyddio gyda'r gweithgaredd yma i bontio'r bwlch rhwng y tu mewn a'r awyr agored ar gyfer eu myfyrwyr.

| Subject | Topic | Ideas for further exploration |
|---|---|---|
| Llythrennedd ac Iaith | Cyfarwyddiadau | Ysgrifennu cyfarwyddiadau neu ganllaw diogelwch ar gyfer naddu |
| | Ysgrifennu ffuglen | Naddu a chreu cymeriadau o lyfr stori |
| Gwyddoniaeth | Deunyddiau | Archwilio addasrwydd gwahanol fathau o bren |
| Drama | Chwarae rôl | Creu hudlathau i annog chwarae dychmygus |
| Mathemateg | Mesuriadau | Mesur y brigau'n fanwl gywir cyn ac ar ôl naddu |
| | Rhif | Creu sgitls ac archwilio bondiau rhif |
| Technoleg | Technoleg Bwyd | Naddu ffyn tostio i goginio uwchben tân |
| | Dylunio – Adeiladu Den | Creu pegiau pebyll i gefnogi adeiladu a dylunio den |

Learning through Landscapes

Os hoffech chi ddatblygu eich gwybodaeth a'ch sgiliau dysgu awyr agored, edrychwch ar ein hamrywiaeth ni o gyrsiau hyfforddi: ltl.org.uk/outdoor-learning-training

© Mae'r daflen weithgarwch yma wedi cael ei chreu gan Ymddiriedolaeth Learning through Landscapes. Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr rhif 803270 ac yn yr Alban SCO38890